**WHC (2021) 010**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi:** 16 Medi 2021

**STATWS: CYDYMFFURFIAETH**

**CATEGORI: LLYWODRAETHU**

**Teitl:** Diwygiadau i Reolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Enghreifftiol – GIG Cymru

**Dyddiad dod i ben / Adolygu:** Mawrth 2023

**I'w weithredu gan y canlynol:**
Cadeiryddion Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG

Cadeiryddion Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys

Cadeirydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Cyfarwyddwyr Llywodraethu Corfforaethol/ Ysgrifenyddion y Bwrdd ac Ysgrifenyddion y Cyd-bwyllgor

**Angen gweithredu erbyn:** Yn unol ag amserlen y Bwrdd a'r Pwyllgor.

**Anfonir gan:**

Melanie Westlake, Pennaeth Llywodraethiant Bwrdd y GIG, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Enw(au) Cyswllt yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru:**
Melanie Westlake, Pennaeth Llywodraethiant Bwrdd y GIG, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, (melanie.westlake@gov.wales)

**Noder:** Mae Cylchlythyr Iechyd Cymru yn disodli pob fersiwn flaenorol a gyhoeddwyd, fodd bynnag bydd angen i rai sefydliadau ystyried y diwygiadau dros dro a wnaed yn unol â datgymhwyso deiliadaeth aelodau nad ydynt yn swyddogion ac aelodau cyswllt (mae WHC 2020/21 yn cyfeirio atynt) a allai barhau yn eu lle.

**Cyflwyniad a Chefndir:** Rhaid i gyrff y GIG yng Nghymru gytuno ar Reolau Sefydlog sydd, ynghyd â set o Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a chynllun o benderfyniadau a gedwir i'r Bwrdd; cynllun o ddirprwyaethau i swyddogion ac eraill; ac ystod o ddogfennau fframwaith eraill yn amlinellu'r trefniadau y bydd y Bwrdd, ei Bwyllgorau, Grwpiau Cynghori a staff y GIG yn gwneud penderfyniadau oddi tanynt i gyflawni eu gweithgarwch. Dylai'r Rheolau Sefydlog fod yn seiliedig ar y model a bennir gan Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu ac wedi diwygio'r dogfennau enghreifftiol canlynol:

- Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Enghreifftiol – Byrddau Iechyd Lleol;
- Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Enghreifftiol – Ymddiriedolaethau'r GIG;
- Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Enghreifftiol – Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, sy'n llunio Atodlen 4.1 o Reolau Sefydlog Enghreifftiol y Bwrdd Iechyd Lleol;
- Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau – Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys, sy'n llunio Atodlen 4.2 o Reolau Sefydlog Enghreifftiol y Bwrdd Iechyd Lleol [Noder: Nid yw'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Enghreifftiol wedi cael eu cyhoeddi eto i'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys];
- Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Enghreifftiol – Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Mae Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Enghreifftiol wedi cael eu cyhoeddi ar wahân i'r Awdurdod Iechyd Arbennig Iechyd a Gofal Digidol Cymru a sefydlwyd yn ddiweddar.

Mae fersiynau diweddaraf o’r dogfennau enghreifftiol, ynghyd â rhestr o ddiwygiadau wedi cael eu cyhoeddi yn e-Lawlyfr Llywodraethu GIG Cymru, a gallwch eu gweld yma:

*https://pcgc.gig.cymru/rhaglenni-cymru-gyfan/e-lawlyfr-llywodraethu/gwybod-pwy-syn-gwneud-beth-a-pham/cefnogi-llywodraethu-da/rheolau-sefydlog/*

**Dogfennau amgaeedig:**

Llythyr at Gadeiryddion Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau’r GIG, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a’r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys.

Tabl o ddiwygiadau – Rheolau Sefydlog Enghreifftiol a Chynllun Dirprwyo

Tabl o ddiwygiadau – Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Enghreifftiol

Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau – Byrddau Iechyd Lleol;

Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog – Byrddau Iechyd Lleol;

Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau – Ymddiriedolaethau'r GIG;

Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog – Ymddiriedolaethau'r GIG;

Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau – WHSSC;

Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog – WHSSC;

Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau – EASC;

Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau – Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC);

Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog – Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/VG/1430/21

Cadeiryddion Byrddau Iechyd Lleol
Cadeiryddion Ymddiriedolaethau'r GIG
Cadeirydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru
Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys

7 Ebrill 2021

Annwyl Gadeiryddion

**Adolygiad o:**

a) **Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog – Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC),**
b) **Adolygiad o Reolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau - y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys**

Fel y gwyddoch, rhaid adolygu'r dogfennau uchod yn barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn gywir ac yn gyfredol. Ym mis Medi 2019 y cafodd Rheolau Sefydlog Enghreifftiol a Chynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau eu cyhoeddi ddiwethaf, ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, a'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys. Ni chafodd y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog enghreifftiol eu hadolygu bryd hynny. Cyhoeddwyd Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog enghreifftiol ar gyfer AaGIC ym mis Medi 2018.

Mae swyddogion a chynrychiolwyr Grwpiau Cymheiriaid Ysgrifenyddion a Chyfarwyddwyr Cyllid y Byrddau wedi adolygu'r holl ddogfennau'n ddiweddar.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyhoeddir y dogfennau enghreifftiol diwygiedig yn unol â’m pwerau cyfarwyddo sydd wedi eu nodi yn adran 12(3) (ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol), adran 19(1) (ar gyfer Ymddiriedolaethau’r GIG), ac adran 23(1) (ar gyfer Awdurdodau Iechyd Arbennig) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Bydd fy swyddogion yn anfon disgrifiad manwl o’r newidiadau a wnaed at Ysgrifennydd eich Bwrdd, a bydd y manylion hyn hefyd yn cael eu cyhoeddi yn yr e-Lawlyfr Llywodraethu. (https://pcgc.gig.cymru/rhaglenni-cymru-gyfan/e-lawlyfr-llywodraethu/)

Mae’n rhaid i’ch Bwrdd ymgorffori a mabwysiadu’r adolygiad diweddaraf hwn yn Rheolau Sefydlog a Chynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (sy’n rhan o’r Rheolau Sefydlog) eich sefydliad. Mae Rheolau Sefydlog Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a’r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys yn ffurfio Atodlen 4.1 a 4.2 o Reolau Sefydlog y Byrddau Iechyd Lleol.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Copïau at: Brif Weithredwyr Byrddau Iechyd Lleol
Prif Weithredwyr Ymddiriedolaethau’r GIG
Prif Weithredwr – Addysg a Gwella Iechyd Cymru
Rheolwr Gyfarwyddwr, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
Prif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwlans, y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys
Ysgrifenyddion Bwrdd, Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau’r GIG ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru
Ysgrifenyddion Pwyllgor, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a’r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys